**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

**Dyddiad:** 26 Mehefin 2003
**Amser:** 09:00
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Dyfodol y cronfeydd strwythurol

1. Mae polisi rhanbarthol yn ymwneud â mwy na'r ardaloedd tlotaf yn unig. Er mwyn gwella twf a ffyniant y DU yn y tymor hir, mae'n hanfodol bod pob cenedl a rhanbarth yn y DU yn perfformio i'w potensial economaidd llawn. Dyna pam y mae'n rhaid i bolisi rhanbarthol modern ganolbwyntio ar wella perfformiad economaidd pob cenedl a rhanbarth, drwy fynd i'r afael â'r amrywiol fethiannau yn y farchnad ac yn y gymdeithas sy'n rhwystro'u perfformiad.

2. I wneud hyn, mae angen polisi rhanbarthol o dan arweiniad lleol fel elfen allweddol yn strategaeth economaidd a chymdeithasol y Llywodraeth. Mae strategaeth datblygu rhanbarthol y Llywodraeth wedi'i seilio ar y canlynol:

- **sefydlogrwydd macroeconomaidd**, sy'n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio a buddsodd yn sgil degawdau o dan-fuddsoddi;
- **diwygiadau microeconomaidd** i fynd i'r afael â methiannau'r marchnadoedd ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan ganolbwyntio ar ysgogiadau allweddol twf economaidd;
- **fframwaith polisi rhanbarthol o ddatganoli** fel bod gan y rhanbarthau yr adnoddau a'r hyblygrwydd i roi polisïau ar waith o dan arweiniad lleol, o fewn fframwaith o atebolrwydd clir.

3. Mae'r Llywodraeth wedi datganoli grym sylweddol yn barod. Mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ryddid i ddylunio polisïau a rhyddid hefyd, drwy drefniadau'r grantiau bloc, i ddyrannu adnoddau i ategu datblygu rhanbarthol a blaenoriaethau ym maes adfywio. Mae'r penderfyniadau'n cael eu cymryd gan gynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, sydd wedyn yn atebol i'r bobl leol. Mae'r Llywodraeth yn deddfu i roi dewis i bobl yn rhanbarthau Lloegr ynghylch a ydynt am i benderfyniadau gael eu datganoli i'w cynulliadau rhanbarthol eu hunain. Ac mae creu cyrff rhanbarthol eraill, gan gynnwys Awdurdod Llundain Fwyaf, a'r Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, yn golygu bod anghenion lleol yn arwain y polisi yn holl ranbarthau'r DU yn fwy ac yn fwy. I gyd-fynd â hyn, ceir mwy a mwy o hyblygrwydd a disgresiwn wrth ddefnyddio adnoddau o fewn fframweithiau o atebolrwydd clir er mwyn i arian y trethdalwyr gael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

4. Mae'r Undeb Ewropeaid wedi ymrwymo hefyd i strategaeth ddeng-mlynedd o ddiwygio marchnadoedd cynhyrchion, cyfalaf a llafur Ewrop. **Y nod, y cytunwyd arno gan Benaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau Ewrop yn Lisbon yn 2000, yw creu Ewrop erbyn 2010 lle ceir *'yr economi mwyaf cystadleuol a dynamig wedi'i seilio ar wybodaeth yn y byd, a fyddai'n gallu cynnal twf economaidd gyda mwy o swyddi, gwell swyddi a gwell***

***cydlynedd cymdeithasol'*.** Dim ond os bydd pob cenedl a rhanbarth yn y DU yn gwireddu eu potensial llawn y gall y DU gyrraedd ei nodau economaidd a chymdeithasol domestig, ac yn yr un modd, dim ond os bydd pob cenedl a rhanbarth yn yr UE hefyd yn gwireddu eu potensial economaidd a chymdeithasol y gall yr UE wireddu'r amcanion hyn ar gyfer yr economi a'r gymdeithas.

5. Er bod polisïau rhanbarthol yr UE wedi dod â manteision i'r DU a'r UE, cafwyd hefyd heriadau sylweddol wrth eu rhoi ar waith, ac mae'r trefniadau cyfredol yn aml wedi'u canoli ormod. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwahanol anghenion ar draws yr Undeb yn ddigonol, yn enwedig yn yr Aelod-wladwriaethau mwyaf ffyniannus lle mae cymorth y Gymuned yn gyfran gymharol fach o'r gwariant ar ddatblygu rhanbarthol ac mae'r diffyg hyblygrwydd yn gosod llyffetheiriau diangen ar y rhyddid y mae ar y cenhedloedd a'r rhanbarthau ei angen i gynnal eu polisïau eu hunain sydd wedi'u pennu a'u gwireddu yn lleol.

6. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r egwyddorion sy'n sail i'w pholisi rhanbarthol domestig hi a ddylai fod yn sylfaen ar gyfer diwygio polisi rhanbarthol yr UE, fel bod hwnnw'n cael ei arwain yn lleol a'i ddatganoli'n helaeth. Daw'r diwygio hwn yn bwysicach byth mewn UE ehangach, pan fydd y blaenoriaethau a'r dulliau y bydd angen i'r gwledydd tlotaf sydd am ymuno fynd i'r afael â hwy er mwyn gwireddu eu potensial yn wahanol iawn i'r rhai sy'n wynebu'r Aelod-wladwriaethau cyfoethocaf ar hyn o bryd. Mae'r Llywodraeth yn gryf o blaid ehangu'r UE, a fydd yn plannu democratiaeth a sefydlogrwydd yn gadarn yn Nwyrain Ewrop ac yn creu'r farchnad sengl fwyaf yn y byd. Ond mae ehangu hefyd yn hwb ar gyfer diwygio polisi rhanbarthol yr UE, i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion mwyfwy amrywiol yr UE wrth iddo weithio tuag at nodau Lisbon. Awydd ac ymroddiad y Llywodraeth i weld pob cenedl a rhanbarth yn gallu gwireddu eu potensial yn llawn sydd wrth galon ei hymagwedd at ddyfodol polisi rhanbarthol yn Ewrop. I gyrraedd y nod, bydd rhaid diwygio pedwar dimensiwn allweddol ar bolisi'r UE:

- diwygio'r Cronfeydd Strwythurol a'r Cronfeydd Cydlynu er mwyn i'r Aelodwladwriaethau ddilyn polisïau effeithiol ar gyfer twf rhanbarthol a datblygu cyfalaf dynol o fewn fframwaith sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu eu gwahanol anghenion;
- diwygio'r gyfundrefn cymorth gwladol i greu rheolau ar gymorth gwladol a fydd yn effeithlon, yn gymesur, yn ymatebol ac yn gallu ymdopi â'r amrywiaeth o fesurau y mae eu hangen er mwyn sicrhau polisi lleol a rhanbarthol effeithiol;
- diwygio cyllid Banc Buddsoddi Ewrop i wneud y defnydd mwyaf effeithiol posibl ar gronfeydd y Banc ledled yr UE, ac yn enwedig felly ei fenthyciadau i'r Aelod-wladwriaethau lleiaf ffyniannus;
- diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin er mwyn sicrhau polisi cynaliadwy sy'n gogwyddo tuag at y farchnad.

7. Yn y papur hwn, mae'r Llywodraeth felly yn ymgynghori ar y cynnig mai ei hymagwedd hi, sef Fframwaith i'r UE ar gyfer Polisi Rhanbarthol

Datganoledig, a ddylai ffurfio'r sylfaen ar gyfer safbwynt y DU yn y drafodaeth ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol a Chronfeydd Cydlynu yr UE.

8. O dan y Fframwaith hwn, byddai Aelod-wladwriaethau'r UE yn cytuno ar egwyddorion cyffredin, ond byddai'r dulliau gweithredu ar gyfer polisi rhanbarthol yn cael eu datganoli'n helaeth ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau. Byddai cymorth yr UE, yn ariannol ac yn sefydliadol, yn cael ei ail-ganolbwyntio ar yr Aelodwladwriaethau tlotaf hynny a fydd yn elwa fwyaf o gyfraniad uniongyrchol gan yr UE. I'r Aelod-wladwriaethau eraill, byddai'r polisi rhanbarthol yn cael ei adnoddi'n ddomestig gyda mwy o ryddid i'w wireddu yn ôl y blaenoriaethau domestig nag o dan y gyfundrefn bresennol. Dylai'r diwygiadau ganiatáu hefyd i'r Aelod-wladwriaethau gael mwy o hyblygrwydd i gefnogi blaenoriaethau polisi eraill, megis eu cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer cyflogaeth. Moderneiddio'r gyfundrefn cymorth gwladol fydd un ffynhonnell allweddol ar gyfer mwy o ryddid fel hyn, gan ganiatáu i fethiannau yn y marchnadoedd perthnasol gael sylw pryd bynnag y byddant yn digwydd, a chan sicrhau y gall mesurau lleol a rhanbarthol nad ydynt yn effeithio fawr ddim ar economi ehangach yr UE gael eu cymeradwyo'n gyflym a chyda chyn lleied â phosibl o gostau cydymffurfio. Pe bai'r Fframwaith yn cael ei gytuno, fe fyddem felly yn gwarantu, drwy gynyddu gwariant Llywodraeth y DU ar y polisi rhanbarthol, y byddai'r cenhedloedd a'r rhanbarthau yn derbyn lefel o adnoddau a fyddai'n sicrhau na fyddent yn colli dim yn sgil cynigion y DU ar ddiwygio'r Cronfeydd Strwythurol, er enghraifft yn sgil yr arian trosiannol y byddent wedi'i gael yn awtomatig wrth i'r meini prawf cymhwyster gael eu cymhwyso at yr UE25 yn hytrach na'r UE15. Byddem yn ymrwymo i sicrhau bod gan y cenhedloedd a'r rhanbarthau ddigon o adnoddau i gael parhau i hybu cynhyrchedd a chyflogaeth ranbarthol oherwydd cynnydd yn y gwariant domestig ar y polisi rhanbarthol, wedi'i dargedu ar yr ardaloedd lle ceir diweithdra uchel a CMC isel.

**9. Beth yw'ch barn chi am ein hymagwedd arfaethedig, sef, o ran egwyddor, mai Fframwaith yr UE ar gyfer Polisi Rhanbarthol Datganoledig a ddylai fod yn sylfaen ar gyfer safbwynt y DU ar y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006? Byddai'r Llywodraeth hefyd yn croesawu sylwadau ar ei hamcanion cyffredinol ar gyfer dyfodol y Cronfeydd Strwythurol ac ar y syniadau sy'n dod o'r Comisiwn ar hyn o bryd.**